O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 1849 (Cy. 199)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Toddyddion Echdynnu mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2011

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

**1.** Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Toddyddion Echdynnu mewn Bwyd 1993 (O.S. 1993/1658) er mwyn gweithredu yng Nghymru Gyfarwyddeb y Comisiwn 2010/59/EU sy'n diwygio Cyfarwyddeb 2009/32/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyd-ddynesiad cyfreithiau'r Aelod-wladwriaethau ynglŷn â thoddyddion echdynnu a ddefnyddir wrth gynhyrchu bwydydd a chynhwysion bwyd (OJ Rhif L225, 27.8.2010, t.10).

**2.** Yr hyn a gynhwysir yn y diwygiadau i Reoliadau 1993 yw—

(a) yn Atodlen 2, rhestru dimethyl ether fel toddydd echdynnu y caniateir ei ddefnyddio wrth baratoi cynhyrchion protein anifeiliaid a ddiseimiwyd (*rheoliad 2(2)*); a

(b) yn Atodlen 3 (sy'n ymwneud â defnyddio toddyddion echdynnu wrth baratoi cyflasynnau naturiol), cynnwys methanol a propanol-2-ol, gan ragnodi terfynau gweddilliol cysylltiedig (*rheoliad 2(3)*).

**3.**Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni thybiwyd bod angen cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o gostau a buddion tebygol cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

# 2011 Rhif 1849(Cy.199)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Toddyddion Echdynnu mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2011

*Gwnaed* *25 Gorffennaf 2011*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *25 Gorffennaf 2011*

*Yn dod i rym* *15 Awst 2011*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1)(a) ac (c), 17(1) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**) ac a freinir bellach ynddynt hwy(**2**).

Yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno, rhoesant sylw i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n pennu egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn pennu gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**), ymgynghorwyd yn agored a thryloyw â'r cyhoedd yn ystod cyfnod paratoi a gwerthuso'r Rheoliadau hyn.

(**1**) 1990 p.16. Amnewidiwyd adran 1(1) a (2) (diffiniad o "food") gan O.S. 2004/2990. Diwygiwyd adrannau 16, 17 a 48 gan adran 40(1) o Deddf Safonau Bwyd 1999 (p.28) ('Deddf 1999') a paragraffau 7 ac 8 iddi. Diwygiwyd adran 17 hefyd gan baragraff 12(a) o Atodlen 5 i Ddeddf 1999. Diwygiwyd adran 48 hefyd gan baragraff 21 o Atodlen 5 i Deddf 1999 ac OS 2004/2990.

(**2**) Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672 fel y'i darllenir ynghyd ag adran 40(3) o Ddeddf 1999 a throsglwyddwyd hwy wedyn i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p.32).

(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 596/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n addasu nifer o offerynnau sydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn y cyfeirir ati yn Erthygl 251 o'r Cytuniad i Benderfyniad y Cyngor 1999/468/EC mewn perthynas â'r weithdrefn reoleiddiol gyda chraffu: Addasu'r weithdrefn reoleiddiol gyda chraffu – Rhan Pedwar (OJ Rhif L188, 18.7.2009, t.14).

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1.**—(1) Enw’r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Toddyddion Echdynnu mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2011.

(2) Mae’r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 15 Awst 2011.

**Diwygio Rheoliadau Toddyddion Echdynnu mewn Bwyd 1993**

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Toddyddion Echdynnu mewn Bwyd 1993(**1**) yn unol â pharagraffau (2) a (3).

(2) Ar ddiwedd y tabl yn Atodlen 2 (bwydydd y ceir defnyddio ynddynt doddyddion echdynnu penodol, at ddibenion penodol yn unig), mewnosoder y cofnodion canlynol —

| “*Column 1* | *Column 2* | *Column 3* | *Column 4* |
|---|---|---|---|
| 10 Defatted protein products | Dimethyl ether | Preparation of defatted animal protein products | 0.009 mg/kg in the defatted protein products ” |

(3) Ar ddiwedd y tabl yn Atodlen 3 (gweddillion uchaf o doddyddion echdynnu a ganiateir mewn bwydydd o ganlyniad i ddefnyddio, yn y bwydydd hynny, fwyd sy’n cynnwys cyflasynnau a baratowyd o ddeunyddiau cyflasu naturiol gan ddefnyddio’r toddyddion echdynnu hynny), mewnosoder y cofnodion canlynol—

| “*Column 1* | *Column 2* |
|---|---|
| Methanol | 1.5 mg/kg |
| Propan-2-ol | 1 mg/kg” |

*Lesley Griffiths*

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

25 Gorffennaf 2011

(**1**) O.S. 1993/1658. Diwygiwyd y Rheoliadau hyn gan O.S. 1995/1440, O.S. 1998/2257 ac, mewn perthynas â Chymru, gan O.S. 2005/3254 (Cy. 247).